Saffari'r Pum Synnwyr

Trosolwg

Profwch yr awyr agored drwy weld, clywed, cyffwrdd, arogli a blasu (yn ddiogel), er mwyn archwilio sut y mae amgylcheddau cyfoethog o safbwynt synhwyraidd yn hybu datblygiad ymennydd plant a rheoleiddio emosiynol drwy fyd natur.



Gweithgareddau

Gweld – defnyddiwch eich bysedd i greu sbectol, ac edrychwch yn agos ac ymhell. Chwiliwch am rywbeth bach iawn neu rywbeth sy'n symud.

Clywed – rhowch eich dwylo y tu ôl i'ch clustiau a chlustfeiniwch am synau am 20 eiliad.
Cyffwrdd – defnyddiwch eich bys a phwyntiwch at weadau naturiol.
Arogli – dilynwch eich trwyn a dewch o hyd i blanhigyn i'w arogli.
Blasu – sticiwch eich tafod allan fel neidr a blaswch yr aer.

Offer

- Ffenestri golygfeydd
- defnyddiwch fysedd,
- brigau,
- neu bapur/cerdyn gyda thwll wedi'i dorri allan yn y canol

Rhyngweithio allweddol

Defnyddiwch iaith fathemategol – maint, siâp, pwysau
Defnyddiwch gardiau â samplau o liwiau i ddod o hyd i bethau ym myd natur sy'n cyfateb i'r lliw.
Defnyddiwch dâp masgio i greu breichled ludiog er mwyn casglu'r eitemau a ddarganfuwyd.

Deilliannau dysgu

Hybu lles, chwilfrydedd a hyder plant drwy brofiadau synhwyraidd. Deall bod chwarae synhwyraidd yn gwella datblygiad ieithyddol.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Archwiliwch â'ch dwylo, eich traed a hyd yn oed eich penelinoedd – fel y mae plant yn gwneud. Mae hynny'n meithrin ymwybyddiaeth o reoleiddio synhwyraidd a dysgu drwy gyffwrdd.
- Saffari troednoeth – tynnwch eich esgidiau a'ch sanau i ffwrdd ac archwiliwch wahanol arwynebau â'ch traed.